OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2013 Rhif 2582 (Cy. 253)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 32, Cyfnewidfa Coryton) a Chefnffordd yr A470 (Coryton) Caerdydd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Hydref 2013* |
| *Yn dod i rym* | *14 Hydref 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain i Dde Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd") a Chefnffordd Caerdydd i Langurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r draffordd a'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Hydref 2013. Ei enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 32, Cyfnewidfa Coryton) a Chefnffordd yr A470 (Coryton) Caerdydd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2013.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn, neu mewn cysylltiad â'r gwaith hwnnw, neu unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 14 Hydref 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darn o'r gefnffordd” *(“the length of the trunk road”)* yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn;

ystyr “y darnau o'r draffordd” *(“the lengths of the motorway”)* yw'r darnau hynny o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiad**

**3**. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**Cymhwyso**

**5.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt ar waith.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Hydref 2013

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1

**Hyd a lled y gwaharddiad ar bob cerbyd**

i) Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin oddi ar draffordd yr M4 wrth Gyffordd 32, Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd.

ii) Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain oddi ar draffordd yr M4 wrth Gyffordd 32, Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd.

iii) Y darn hwnnw o brif gerbytffordd traffordd yr M4 tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r dwyrain hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 32, Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd.

### ATODLEN 2

**Hyd a lled y Terfyn Cyflymder 10 mya**

i) Y darn cyfan o system gylchu cylchfan cefnffordd yr A470 wrth Gyfnewidfa Coryton, Caerdydd.